# Cyflogaeth- Beth rydw i angen gwybod: Sir Gaerfyrddin

## Canllaw i bobl ifanc

Adnodd 5 o 12

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:

- Mynd o gwmpas- Sir Gaerfyrddin
- Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau
- Budd-daliadau a Phethau i'w Hawlio- Addysg
- Cyllidebu

Prosiect Paratoi

Mae cael swydd newydd yn gyffrous dros ben. Ond wyt ti'n gwybod beth yw dy hawliau di yn y gwaith? Bydd y canllaw yma’n esbonio'r wybodaeth rwyt ti angen - gan ddechrau gyda rhai pethau cyfreithiol

**Isafswm Cyflog ac ati**
**(o fis Ebrill 2021)**

Cyfradd fesul awr yr isafswm cyflog mae'n rhaid i sefydliadau ei dalu yw:

- Dan 18 oed £4.62
- 18-20 £6.56
- 21-22 £8.36
- 23 a throsodd £8.91
- Prentis (dan 19) £4.30
- Prentis (19 oed a throsodd) £4.30 yn y flwyddyn gyntaf ac yna'r isafswm cyflog yn ôl oedran

**https://www.gov.uk/cyfraddau-isafswm-cyflog-cenedlaethol**

**Treth, Yswiriant Gwladol ac ati**

Treth Incwm:

- Os bydd dy gyflog yn llai na £12,500 y flwyddyn fyddi di ddim yn gorfod talu treth incwm (Lwfans Treth Personol)
- Bydd angen i ti dalu 20% o dreth ar bob £1 rwyt ti'n ennill dros £12,500

Os byddi di'n ennill mwy na £166 yr wythnos, byddi di'n talu rhywfaint o yswiriant gwladol

Os byddi di'n ennill mwy na £118 yr wythnos byddi di'n gallu ymuno â chynllun pensiwn dy sefydliad

MATERION CYFREITHIOL

# Contract

Pa swydd bynnag sydd gen ti, fe ddylet ti gael contract. Bydd hwn yn dangos o leiaf:

- Nifer yr oriau rwyt ti'n eu gweithio bob wythnos
- Cyfradd dy gyflog (cofia bod RHAID i hon fod yr un faint â'r isafswm cyflog, o leiaf)
- Dy hawl i wyliau â thâl
- Y math o gontract, er enghraifft, contract Nadolig dros dro, oriau sero, parhaol

- Os wyt ti'n gweithio mwy na 6 awr mewn diwrnod, rhaid i ti gael egwyl am o leiaf 20 munud.
- Ond does dim rhaid iddo fe fod yn egwyl â thâl.
- Dwyt ti ddim yn cael gweithio mwy na 48 awr mewn wythnos.
- Dylet ti gael 11 awr o fwlch rhwng shifftiau

# Hyfforddiant

Efallai byddi di'n gallu gofyn am amser i ffwrdd o'r gwaith i gael hyfforddiant:

- Os oes gan dy gyflogwr fwy na 250 o weithwyr
- Os wyt ti wedi gweithio yno am fwy na 26 wythnos

Ond gall hwn fod yn amser i ffwrdd heb dâl ac mae'n bosib bydd gofyn i ti dalu am y cwrs

Pa fath bynnag o gontract sydd gen ti, RHAID i ti gael rhywfaint o wyliau â thâl

# Gwaith a Chredyd Cynhwysol

- Mae'n bosibl y byddi di'n gallu hawlio rhai taliadau Credyd Cynhwysol hyd yn oed os wyt ti'n gweithio.
- Bydd effaith hynny ar dy fudd-daliadau yn dibynnu ar y swm rwyt ti'n ennill.
- Os bydd y cyflog yn effeithio ar dy fudd-daliadau byddi di'n cael 63c yn llai am bob £1 rwyt ti'n ennill
- Gofyn am gymorth gan dy Anogwr Gwaith yn y Ganolfan Waith neu gan Gyngor ar Bopeth Sir Gaerfyrddin

# Gofal Plant

- Os oes plentyn bach gen ti ac rwyt ti eisiau gweithio, efallai bydd hi'n bosib i ti gael rhywfaint o gymorth gofal plant.
- Edrych ar ein hadnoddau Budd-daliadau a Hawliau - Rhieni i gael rhagor o wybodaeth neu
- **https://www.gov.uk/childcare-calculator**

Bydd angen i ti wybod dy Rif Yswiriant Gwladol pan fyddi di'n dechrau gweithio a dangos trwydded yrru neu ddogfen debyg i brofi pwy wyt ti

# IECHYD A DIOGELWCH

## Ble mae help ar gael

Mae rhai llefydd gelli di fynd os wyt ti'n credu bod y cwmni ddim yn gwneud beth ddylai fe:

- Os wyt ti'n aelod o undeb, cer i siarad â'th gynrychiolydd undeb
- Siarad â Chyngor ar Bopeth
- Siarad ag ACAS **acas.org.uk**
- Siarad â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

**https://www.hse.gov.uk/contact/concerns.htm**





Mae gan y cwmni sy'n rhoi swydd i ti rai cyfrifoldebau iechyd a diogelwch hefyd ...

## Cyfarpar Diogelu Personol

- Os yw dy weithle yn rhywle lle does dim modd osgoi rhai risgiau, fel safle adeiladu, RHAID i'r cwmni roi cyfarpar diogelwch priodol i ti AM DDIM.
- Gall y rhain gynnwys esgidiau gwaith â chapiau dur, het galed, menig gwaith, sbectol ddiogelwch ac ati
- Gallai'r cwmni ofyn i ti brynu'r cyfarpar a thalu'r arian yn ôl i ti.
- **https://www.hse.gov.uk/toolbox/ppe.htm**

## Gwisg Swyddogol

Os oes rhaid i ti wisgo gwisg swyddogol â logo'r cwmni arni:

- Mae'n debygol y bydd y cwmni'n rhoi'r wisg i ti am ddim
- Bydd angen i ti roi'r wisg yn ôl pan fyddi di'n gadael

## Golchi Dillad Brwnt

Os oes rhaid i ti wisgo gwisg swyddogol yn y gwaith ac os wyt ti'n ennill digon o gyflog i dalu treth incwm, fe gei di hawlio rhywfaint o arian yn ôl am gost golchi'r wisg.

**https://www.gov.uk/guidance/job-expenses-for-uniforms-work-clothing-and-tools**



## Carden CSCS

- Os wyt ti am weithio ar safle adeiladu fel briciwr, er enghraifft, mae'n debygol y bydd angen carden CSCS arnat ti i brofi bod cymwysterau addas gen ti i fod ar y safle.
- I gael rhagor o wybodaeth, cer i **https://www.cscs.uk.com/**

## Prawf llygaid

- Os wyt ti'n gweithio ac yn gorfod defnyddio cyfrifiadur am lawer o'r amser yn y gwaith, mae hawl gen ti i gael prawf llygaid am ddim gan bwy bynnag sy'n dy gyflogi.
- Rhaid iddyn nhw dalu hefyd am y sbectol bydd angen i ti ei defnyddio pan fyddi di'n gweithio wrth y cyfrifiadur

## Cychwyn busnes

Os wyt ti eisiau bod yn entrepreneur ac mae gen ti syniad busnes gwych, gelli di ofyn i'r canlynol am gymorth:

- **https://www.businessinfocus.co.uk/**
- **https://www.princes-trust.org.uk/**
- **https://businesswales.gov.wales/cy**
- **https://businesswales.gov.wales/bigideas/cy**

Fel arall, siarad â'r awdurdod lleol sy'n cefnogi busnesau newydd hefyd

- **https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/cyllid/**

# CYMORTH I CHWILIO AM WAITH

Gad i ni gymryd cam neu ddau yn ôl. Sut mae chwilio am waith yn y lle cyntaf? Mae digon o help wrth law...

## Cymunedau am Waith a Mwy

Mae hwn yn gynllun gan Lywodraeth Cymru i helpu pobl i gael gwaith.

Mae'n gallu:

- Cynnig cymorth un-i-un gyda materion fel ysgrifennu CV, chwilio am swyddi ac ati
- Cynnig cyfleoedd hyfforddiant
- Dy gyfeirio at waith gwirfoddol neu gynlluniau eraill fydd yn rhoi hwb i'th sgiliau
- Cynnig Clybiau Gwaith

Cymunedau am Waith
Communities for Work

## Cymorth Cyflogaeth Lleol

Galw heibio un o ganolfannau 'Hwb' yr awdurdod lleol i gael cymorth gan Gymunedau am Waith, Gweithffyrdd ac ati

Dyma'r lleoliadau:

- Rhydaman- 41 Stryd y Cei
- Caerfyrddin- 3 Heol Spilman
- Llanelli- 36 Stryd Stepney

Mae gan y Gwasanaeth Sifil gynllun interniaeth ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal: **https://www.careleaverinternship.co.uk/**

## Gyrfa Cymru

Mae gan Gyrfa Cymru swyddfeydd yn y mannau canlynol:

- Caerfyrddin
- Llanelli
- Rhydaman (yn y Ganolfan Waith)

Mae'r rhain yn gallu darparu cymorth gyda CVs, cynghorion ar gyfer cyfweliadau a mwy.

Hefyd, gallet ti chwilio am leoedd gwag i brentisiaid **https://ams.careerswales.com/Public/Default.aspx?mode=logout&timenow=124315&outputLang=Tr1**

Mae The Prince's Trust yn cynnig grantiau a chymorth arall i helpu pobl ifanc i gael gwaith

**https://www.princes-trust.org.uk/help-for-young-people/get-funding-train-learn**

## Gweithffyrdd

Mae hwn yn gynllun ar gyfer pobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir, ac mae'n cynnig:

- mentora un-i-un
- cymorth i chwilio am swydd a help gyda sgiliau cyfweliad
- siawns i gael cymwysterau newydd

## Cyngor Sir Caerfyrddin

- Fel person ifanc sydd â phrofiad o ofal rwyt ti'n gallu gofyn am brofiad gwaith neu gyfnod dan hyfforddiant gyda'r cyngor neu un o'i bartneriaid
- Siarad â'th gynghorydd personol i gael rhagor o wybodaeth

Pwy bynnag fydd yn dy helpu, cer â'th rif Yswiriant Gwladol gyda thi i gyfarfodydd/hyfforddiant

Yma, byddwn ni'n sôn am chwilio am waith, gwneud ceisiadau a'r broses gyfweld

**Chwilio am swydd ...**

Mae modd chwilio am waith mewn sawl man:

- Canolfan Waith
- Gwefan Indeed
- Gyrfa Cymru
- Cymunedau am Waith
- Facebook
- Total Jobs

# GWNEUD CAIS AM SWYDD

## Y Cais

- Treulia amser yn llenwi'r cais - bydd hyn yn dangos bod y rôl yn bwysig i ti
- Gofala bod yr hyn rwyt ti'n ei ddweud yn berthnasol i'r swydd - cofia sôn am y sgiliau sydd gen ti sy'n ddefnyddiol i'r swydd
- Gwertha dy hun - siarad yn hyderus am yr hyn rwyt ti'n gallu gwneud
- Gwiria dy gais cyn ei anfon
- Defnyddia raglen llunio CV www.careerswales.com

**Wyddet ti?**

Mae'n bosib cei di hawlio arian yn ôl am gost dy daith i gyfweliad. Hola dy gynghorydd canolfan waith neu dy gynghorydd personol

## Llesiant

- Mae chwilio am waith a chyflwyno ceisiadau yn gallu bod yn straen
- Mae hynny'n arbennig o wir os yw rhai ceisiadau wedi cael eu gwrthod yn barod
- Gwna'n siŵr dy fod ti'n gofalu am dy iechyd meddwl a'th lesiant meddwl i'th gadw'n teimlo'n gadarnhaol
- I gael cymorth a chynghorion llesiant, cer i: https://platfform.org/cy/project/pobl-ifanc/

Gofyn i rywun ddarllen dy gais cyn i ti ei anfon

## Y Cyfweliad

Da iawn ti! Mae cael cyfweliad yn gamp ryfeddol. Dyma rai cynghorion ...

- Cofia gychwyn mewn da bryd i gyrraedd y cyfweliad
- Gwisga ddillad addas - os wyt ti'n ansicr, gwisga ddillad smart
- Bydd yn frwd
- Rho ateb clir i bob cwestiwn
- Gofala ofyn rhai cwestiynau dy hun ar y diwedd

Fe wnaiff cwmni Timpson sychlanhau dy ddillad cyfweliad am ddim cyn dy gyfweliad. Cer i Timpson yn Morrisons neu Tesco yng Nghaerfyrddin neu yn Llanelli.

## Pethau sydd eu hangen mewn cyfweliad

I'th helpu i deimlo'n barod, gofala bod y canlynol gen ti:

- Prawf adnabod - trwydded yrru/pasbort
- Rhif yswiriant gwladol
- Prawf o'th gyfeiriad - er enghraifft, adroddiad banc
- Pin ysgrifennu a phapur
- Rhai cwestiynau i'w gofyn yn y cyfweliad

Mae'n bosib byddi di'n gallu gwneud cais am arian gan y gwasanaethau cymdeithasol i brynu dillad cyfweliad.

# GWIRFODDOLI

Os nad wyt ti'n gwbl barod am waith eto neu os wyt ti'n meddwl bod angen ychydig o brofiad arnat ti, beth am wirfoddoli?

## Manteision gwirfoddoli

- Mae'n rhoi mwy o brofiad i ti
- Mae'n caniatáu i ti ddysgu sgiliau newydd
- Mae'n siawns i ti gwrdd â phobl newydd
- Mae'n gwneud i ti deimlo'n dda
- Mae'n dy helpu i gael trefn ar bethau

- Ddylai gwirfoddoli ddim costio i ti gan fod costau teithio'n cael eu talu
- Cadw dy docynnau/dalebau



## Cychwyn arni

Os byddai'n well gen ti gael cyfarfod wyneb yn wyneb â rhywun, ceisia drefnu apwyntiad gyda CAVS. 01267 245555

Os byddai'n well gen ti chwilio ar-lein, cer i:
**https://volunteering-wales.net/vk/volunteers/index.htm?lang=CY**

Ddylai gwirfoddoli ddim effeithio ar dy fudd-daliadau.
Ond gofala sôn wrth dy anogwr gwaith dy fod ti am wirfoddoli.

## Mathau o waith gwirfoddol

Mae cyfleoedd gwirfoddoli ar gael mewn llawer o feysydd i gyd-fynd â'th ddiddordebau

- Chwaraeon
- Manwerthu
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Yr Amgylchedd
- Plant a theuluoedd
- Y celfyddydau a diwylliant
- Gwaith ieuenctid
- A llawer mwy ...



Siarad â'th Gynghorydd Personol ynglŷn â chwblhau modiwl dysgu wedi'i achredu fel:

- Cryfhau Hyder
- Gweithgareddau Hamdden ar gyfer Byw yn Iach

# MEITHRIN HYDER

## Cymorth ariannol gan dîm Cam Nesa

Fel rhywun sy'n 'gadael gofal' yn Sir Gâr, mae'n bosib i ti gael rhywfaint o gymorth gyda chyflogaeth. Siarad â'th gynghorydd personol Bydd y cymorth yma'n dibynnu ar dy anghenion a'th sefyllfa ariannol, ond gallai gynnwys:

- Lleoliadau gwaith am dâl i'th helpu i baratoi ar gyfer swyddi yn y dyfodol
- Cyfnodau dan hyfforddiant am dâl i'th helpu i baratoi ar gyfer swyddi yn y dyfodol
- Cymorth gyda chostau dysgu seiliedig ar waith neu hyfforddiant sy'n hyrwyddo cyflogadwyedd
- Gwiriad DBS (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) os bydd angen un arnat ti ar gyfer dy waith
- Cymorth gyda chost pasbort neu drwydded yrru (bydd angen un o'r rhain arnat ti i brofi bod gen ti hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig)

Os nad wyt ti'n gwbl barod am waith eto, gallet ti fynd i sesiynau meithrin hyder sy'n cael eu rhedeg gan brosiectau lleol

## Oes angen mwy o hyder arnat ti?

- Mae prosiectau ar gael fydd yn datblygu dy hyder a'th hunan-barch
- Mae'r prosiectau hyn yn defnyddio amrywiaeth o becynnau i helpu i ddatblygu dy hyder

### TUNE INTO YOUR POTENTIAL 2

- Prosiect ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed
- Mae'n para 5 diwrnod
- Mae'n defnyddio cerddoriaeth a chyfansoddi caneuon i ddatblygu sgiliau eraill
- Ond does dim rhaid bod â phrofiad cerddorol

Rewise Learning. Made Easy

- Telir costau teithio rhesymol
- Siawns i gael cymwysterau
- Cymorth un-i-un gan weithwyr cynnydd
- Byddan nhw'n dy gyfeirio at wasanaethau eraill fydd yn gallu helpu
- Gallan nhw gynnig cymorth ar ôl i ti gwblhau'r 5 diwrnod

I gymryd rhan:

- ffonia 05603 684297
- cer i https://www.tuneintoyourpotential.co.uk/
- ebost info@learnthroughmusic.co.uk

### DRMZ

Prosiect ieuenctid yng Nghaerfyrddin sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau:

- coginio iach
- caffi galw heibio
- prosiect hyfforddi
- prosiect garddio
- gwirfoddoli

I gymryd rhan:

- ffonia 01267 222786
- ebost office@drmz.co.uk
- cer i https://www.drmz.co.uk/

## Cymorth ariannol gan dîm Cam Nesa

Fel rhywun sy'n 'gadael gofal' yn Sir Gâr, mae'n bosib i ti gael rhywfaint o gymorth gyda chyflogaeth. Siarad â'th gynghorydd personol Bydd y cymorth yma'n dibynnu ar dy anghenion a'th sefyllfa ariannol, ond gallai gynnwys:

- Lleoliadau gwaith am dâl i'th helpu i baratoi ar gyfer swyddi yn y dyfodol
- Cyfnodau dan hyfforddiant am dâl i'th helpu i baratoi ar gyfer swyddi yn y dyfodol
- Cymorth gyda chostau dysgu seiliedig ar waith neu hyfforddiant sy'n hyrwyddo cyflogadwyedd
- Gwiriad DBS (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) os bydd angen un arnat ti ar gyfer dy waith
- Cymorth gyda chost pasbort neu drwydded yrru (bydd angen un o'r rhain arnat ti i brofi bod gen ti hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig)

# MEITHRIN HYDER

Os nad wyt ti'n gwbl barod am waith eto, gallet ti fynd i sesiynau meithrin hyder sy'n cael eu rhedeg gan brosiectau lleol

# Oes angen mwy o hyder arnat ti?

- Mae prosiectau ar gael fydd yn datblygu dy hyder a'th hunan-barch
- Mae'r prosiectau hyn yn defnyddio amrywiaeth o becynnau i helpu i ddatblygu dy hyder

## CAM NESA

Prosiect sy'n derbyn arian Ewropeaidd sy'n gweithio gyda'r canlynol:

- pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed
- sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Bydd y tîm yn gweithio ar sail un-i-un er mwyn:

- meithrin hyder
- cynnig cymorth emosiynol
- ceisio cynnig profiad gwaith priodol gyda chyflogwyr lleol

I gymryd rhan:

- ffonia 01267 246699
- ebost: camnesa@carmarthenshire.gov.uk

## Engage to Change

Prosiect sy'n cael ei redeg gan Elite SEA yn Ne Cymru i gefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i gael cyflogaeth am dâl

Gall y prosiect wneud y canlynol:

- Darparu ymweliadau cyflogaeth â chymorth
- Darparu cyfleoedd gwirfoddoli neu leoliadau gwaith â chymorth
- Darparu cyfweliadau/treialon gwaith â chymorth
- Darparu cymorth i ti gael hyfforddiant

I gael rhagor o wybodaeth:

- ffonia 01443 226664
- ebost tmoore@elitesea.co.uk
- cer i **http://www.engagetochange.org.uk/?lang=cy**

Os nad wyt ti'n gwbl barod am waith eto, gallet ti fynd i sesiynau meithrin hyder sy'n cael eu rhedeg gan brosiectau lleol

## Cymorth ariannol gan dîm Cam Nesa

Fel rhywun sy'n 'gadael gofal' yn Sir Gâr, mae'n bosib i ti gael rhywfaint o gymorth gyda chyflogaeth. Siarad â'th gynghorydd personol Bydd y cymorth yma'n dibynnu ar dy anghenion a'th sefyllfa ariannol, ond gallai gynnwys:

- Lleoliadau gwaith am dâl i'th helpu i baratoi ar gyfer swyddi yn y dyfodol
- Cyfnodau dan hyfforddiant am dâl i'th helpu i baratoi ar gyfer swyddi yn y dyfodol
- Cymorth gyda chostau dysgu seiliedig ar waith neu hyfforddiant sy'n hyrwyddo cyflogadwyedd
- Gwiriad DBS (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) os bydd angen un arnat ti ar gyfer dy waith
- Cymorth gyda chost pasbort neu drwydded yrru (bydd angen un o'r rhain arnat ti i brofi bod gen ti hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig)

# MEITHRIN HYDER

# Oes angen mwy o hyder arnat ti?

- Mae prosiectau ar gael fydd yn datblygu dy hyder a'th hunan-barch
- Mae'r prosiectau hyn yn defnyddio amrywiaeth o becynnau i helpu i ddatblygu dy hyder

VOICES FROM CARE CYMRU

## Sing Proud Cymru

- Cyfle i ti fynegi dy hun
- Ymuna â phlant/phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o ofal a rhai sydd wedi gadael gofal
- Mae siawns i berfformio os wyt ti'n dymuno
- Mae'r grŵp yn cyfarfod bob yn ail ddydd Sul

I ymuno neu i gael rhagor o wybodaeth, cysyllta â: iain@vfcc.org.uk neu trwy whats app 07958 669 521
**https://www.wmc.org.uk/cy/cymryd-rhan/sing-proud-cymru/**

VOICES FROM CARE CYMRU

## Echo Forum

- Wyt ti am gyfarfod â phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o ofal?
- Cyfle i wneud gweithgareddau llawn hwyl?
- Cyfle i gael gwrandawiad?
- Cyfle i ddatblygu hyder a sgiliau?

Os felly, ymuna ag Echo Forum Lleisiau o Ofal Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, siarad â'th gynghorydd personol

## Cymorth ariannol gan dîm Cam Nesa

Fel rhywun sy'n 'gadael gofal' yn Sir Gâr, mae'n bosib i ti gael rhywfaint o gymorth gyda chyflogaeth. Siarad â'th gynghorydd personol Bydd y cymorth yma'n dibynnu ar dy anghenion a'th sefyllfa ariannol, ond gallai gynnwys:

- Lleoliadau gwaith am dâl i'th helpu i baratoi ar gyfer swyddi yn y dyfodol
- Cyfnodau dan hyfforddiant am dâl i'th helpu i baratoi ar gyfer swyddi yn y dyfodol
- Cymorth gyda chostau dysgu seiliedig ar waith neu hyfforddiant sy'n hyrwyddo cyflogadwyedd
- Gwiriad DBS (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) os bydd angen un arnat ti ar gyfer dy waith
- Cymorth gyda chost pasbort neu drwydded yrru (bydd angen un o'r rhain arnat ti i brofi bod gen ti hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig)

# MEITHRIN HYDER

Os nad wyt ti'n gwbl barod am waith eto, gallet ti fynd i sesiynau meithrin hyder sy'n cael eu rhedeg gan brosiectau lleol

# Oes angen mwy o hyder arnat ti?

- Mae prosiectau ar gael fydd yn datblygu dy hyder a'th hunan-barch
- Mae'r prosiectau hyn yn defnyddio amrywiaeth o becynnau i helpu i ddatblygu dy hyder

## Princes Trust

Mae The Prince's Trust yn cynnig nifer o gynlluniau sy'n:

- helpu i ddatblygu dy hyder
- rhoi profiad gwaith hanfodol bwysig i ti
- sicrhau sgiliau
- sicrhau cymwysterau

Mae'r cynlluniau'n cynnwys:

- 'Team'
- 'Get Into'

I gael rhagor o wybodaeth, siarad â'th gynghorydd personol neu cer i:
**https://www.princes-trust.org.uk/help-for-young-people/programmes#getting_a_job**

## CYCA

Mae CYCA yn hyfforddi pobl ifanc a theuluoedd i'w helpu i wneud y canlynol:

- gwella eu llesiant
- sicrhau sgiliau
- sicrhau cymwysterau

Mae'n cwmpasu ystod eang o gyrsiau a phynciau

I gael rhagor o wybodaeth:

- support@cycaonline.org
- 01554 776178

**http://cycaonline.org/**